

Polisi Gwefan

Cyflwyniad

Mae'r telerau defnyddio hyn yn rheoli eich defnydd o'n gwefan. Drwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn derbyn y telerau defnyddio hyn yn llawn. Os ydych yn anghytuno â'r telerau defnyddio hyn neu unrhyw ran o'r telerau defnyddio hyn, mae'n rhaid ichi beidio â defnyddio ein gwefan.

Trwydded i ddefnyddio'r wefan

Ni chewch, heb ganiatâd ymlaen llaw:

- **Ail-gyhoeddi** deunydd o'r wefan hon (gan gynnwys ail-gyhoeddi ar wefan arall); gwerthu, rhentu neu is-drwyddedu deunydd o'r wefan;
- **Dangos** deunydd o'r wefan yn gyhoeddus;
- **Ail-gynhyrchu**, dyblygu, copïo neu gamddefnyddio fel arall ddeunydd ar ein gwefan at ddiben masnachol;
- **Golygu** neu ddiwygio fel arall ddeunydd ar y wefan; neu ailddosbarthu deunydd o'r wefan hon (ac eithrio cynnwys sydd ar gael yn benodol ac yn arbennig i'w ailddosbarthu (megis ein cylchlythyr])

Oni nodir fel arall, rydym ni neu ein trwyddedwyr yn meddu ar hawliau eiddo deallusol y wefan a'r deunydd ar y wefan. Yn amodol ar y drwydded isod, mae'r holl hawliau eiddo deallusol hyn wedi'u cadw. Cewch weld, lawrlwytho at ddibenion storio yn unig, ac argraffu tudalennau o'r wefan am eich defnydd personol eich hun, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir isod ac mewn manau eraill yn yr amodau defnyddio hyn. Rhaid i chi beidio â: Pan fydd cynnwys ar gael yn benodol i'w ailddosbarthu, gellid ei ailddosbarthu yn eich sefydliad yn unig.

Defnydd Derbyniol

Mae'n rhaid ichi beidio â defnyddio ein gwefan mewn ffordd sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed i'r wefan neu atal argaeledd neu hygyrchedd y wefan; neu mewn ffordd sy'n anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu'n niweidiol, neu mewn cysylltiad â diben neu weithgarwch sy'n anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu'n niweidiol. Mae'n rhaid ichi beidio â defnyddio ein gwefan i gopïo, storio, cynnal, trosglwyddo, anfon, defnyddio, cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd sy'n cynnwys, neu sy'n gysylltiedig ag, ysbïwedd, feirws cyfrifiadur, ceffyl pren Troea, mwydyn, cofnodwr trawiadau bysellau, gwreiddwedd neu feddalwedd cyfrifiadur faleisus arall. Mae'n rhaid ichi beidio â gwneud gweithgareddau casglu data systematig neu wedi'u hawtomeiddio (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gribo, cloddio data, dethol data a chynaeafu data) ar ein gwefan neu mewn perthynas â hi, heb ein cydsyniad ysgrifenedig penodol. Mae'n rhaid ichi beidio â defnyddio ein gwefan i drosglwyddo neu anfon cyfathrebiadau masnachol digroeso. Mae'n rhaid ichi beidio â defnyddio ein gwefan at ddibenion sy'n gysylltiedig â marchnata heb ein cydsyniad ysgrifenedig penodol.

Mynediad Cyfyngedig

Mae mynediad at rannau penodol o'n gwefan yn gyfyngedig. Rydym yn cadw'r hawl i gyfyngu mynediad at rannau eraill o'n gwefan, neu yn wir ein holl wefan, yn ôl ein disgresiwn. Os byddwn ni'n rhoi rhif adnabod defnyddiwr a chyfrinair ichi i'ch galluogi i gael mynediad at rannau cyfyngedig o'n gwefan neu gynnwys neu wasanaethau eraill, mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn cadw'r rhif adnabod hwnnw a'r cyfrinair hwnnw'n gyfrinachol. Efallai byddwn ni'n analluogi eich rhif adnabod defnyddiwr a'ch cyfrinair yn ôl ein disgresiwn ni yn unig heb rybudd neu esboniad.

Cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr

Yn y telerau defnyddio hyn, mae "eich cynnwys defnyddiwr" yn golygu deunydd (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i destun, delweddau, deunydd sain, deunydd fideo a deunydd clyweledol) yr ydych yn ei gyflwyno i'n gwefan, at ba bynnag diben. Rydych yn rhoi i ni drwydded fyd-eang, ddi-alw'n ôl, anghyfyngedig heb freindaliadau i ddefnyddio, ailgynhyrchu, addasu, cyhoeddi, cyfieithu a dosbarthu eich cynnwys defnyddiwr mewn unrhyw gyfrwng presennol neu yn y dyfodol. Hefyd, rydych yn rhoi'r hawl inni is-drwyddedu'r hawliau hyn, a'r hawl i weithredu os bydd tresmas ar yr hawliau hyn. Mae'n rhaid i'ch cynnwys defnyddiwr beidio â bod yn anghyfreithlon, mae'n rhaid iddo beidio â thresmasu ar hawliau cyfreithiol trydydd parti, ac mae'n rhaid iddo beidio â gallu achosi gweithredu cyfreithiol boed yn eich erbyn chi neu yn ein herbyn ni neu yn erbyn trydydd parti (ym mhob achos o dan unrhyw gyfraith berthnasol). Mae'n rhaid ichi beidio â chyflwyno cynnwys defnyddiwr i'r wefan sy'n destun - neu sydd wedi bod yn destun - gweithrediadau cyfreithiol, rhai wedi'u bygwth neu rai go-iawn, neu gŵyn debyg arall. Rydym yn cadw'r hawl i olygu neu gael gwared ag unrhyw ddeunydd a gyflwynir i'n gwefan, neu wedi'i storio yn ein gweinyddwyr, neu wedi'i gynnal neu'i gyhoeddi ar ein gwefan. Er gwaethaf ein hawliau o dan y telerau defnyddio hyn ynglŷn â chynnwys defnyddwyr, nid ydym yn ymroi i fonitro cyflwyno cynnwys fel hynny neu gyhoeddi cynnwys fel hynny ar ein gwefan.

Warantïau Cyfyngedig

Er ein bod yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth ar y wefan hon yn gywir, nid ydym yn gwarantu ei bod yn gyflawn nac yn gywir; nid ydym yn ymrwmo chwaith i sicrhau bod y wefan yn aros ar gael neu fod y deunydd ar y wefan yn cael ei gadw'n gyfredol. I'r hyd eithaf y mae cyfreithiau perthnasol yn caniatáu, rydym yn gwahardd pob cynrychiolaeth, gwarant ac amod sy'n gysylltiedig â'r wefan hon a defnydd y wefan hon (gan gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw warantïau goblygedig yn sgîl cyfreithiau o ran ansawdd boddhaol, addasrwydd at y diben a/neu ddefnydd gofal a sgîl rhesymol).

Cyfyngiadau Atebolrwydd

- I'r graddau y darperir y wefan a'r wybodaeth a'r gwasanaethau ar y wefan yn rhad ac am ddim, ni fyddwn yn atebol am golled neu niwed o unrhyw fath;
- Ni fyddwn yn atebol am golled neu niwed canlyniadol, anuniongyrchol neu arbennig;
- Ni fyddwn yn atebol am golled elw, incwm, refeniw, arbedion disgwylledig, contractau, busnes, ewyllys da, enw da, data neu wybodaeth;
- Ni fyddwn yn atebol am golled neu niwed sy'n codi yn sgîl digwyddiad neu ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth resymol;
- Cyfyngir ein hatebolrwydd mwyaf posibl o ran digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig i swm rhesymol.

Ni fydd dim byd yn y telerau defnyddio hyn (neu yn rhywle arall ar ein gwefan) yn eithrio nac yn cyfyngu ar ein hatebolrwydd am dwyll, marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod, neu am unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio na'i gyfyngu yn unol â chyfreithiau perthnasol. Yn amodol ar hyn, cyfyngir ar ein hatebolrwydd i chi o ran defnydd ein gwefan neu yn unol â'r telerau hyn neu mewn cysylltiad â nhw, naill ai drwy gontract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall, fel a ganlyn:

Indemniad

Drwy hyn rydych yn ein hindemnio ac yn ymroi i'n cadw wedi'n hindemnio yn erbyn colled, niwed, costau, atebolrwydd a threuliau (gan gynnwys heb fod yn gyfyngedig i dreuliau cyfreithiol a symiau a dalwyd gennym ni i drydydd parti er mwyn dod â hawliad neu anghytundeb i ben ar gyngor ein hymgynghorwyr cyfreithiol) a gafwyd neu a ddiodefwyd gennym yn sgîl unrhyw doriad gennych chi

o unrhyw ddarpariaeth yn y telerau defnyddio hyn, neu yn sgîl unrhyw honiad eich bod wedi torri unrhyw ddarpariaeth yn y telerau defnyddio hyn.

Torri'r telerau defnyddio hyn. Heb ragfarn i'n hawliau eraill yn unol â'r telerau defnyddio hyn, os byddwch yn torri'r telerau defnyddio hyn mewn unrhyw ffordd, gallem weithredu mewn modd yr ydym yn credu ei fod yn briodol i ddelio â'r toriad, gan gynnwys gohirio eich mynediad at y wefan, eich gwahardd rhag cael mynediad at y wefan, atal cyfrifiaduron sy'n defnyddio eich cyfeiriad IP rhag cael mynediad at y wefan, cysylltu â'ch darparwr gwasanaeth rhyngwrwyd i ofyn iddo eich atal rhag cael mynediad at y wefan a/neu ddwyn achosion llys yn eich erbyn.

Amrywio

Gallem ddiwygio'r telerau defnyddio hyn o bryd i'w gilydd. Bydd telerau defnyddio diwygiedig yn berthnasol i ddefnyddio'n gwefan o ddyddiad cyhoeddi'r telerau defnyddio diwygiedig ar ein gwefan. Gwiriwch y dudalen hon yn rheolaidd i sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r fersiwn gyfredol.

Aseiniad

Gallem drosglwyddo, is-gontractio neu ddelio fel arall â'n hawliau a/neu ein rhwymedigaethau yn unol â'r telerau defnyddio hyn heb roi gwybod i chi na chael eich cydsyniad. Ni chewch drosglwyddo, is-gontractio neu ddelio fel arall â'ch hawliau a/neu eich rhwymedigaethau yn unol â'r telerau defnyddio hyn.

Toradwyedd

Os bydd llys neu awdurdod cymwys arall yn penderfynu bod darpariaeth yn y telerau defnyddio hyn yn anghyfreithlon neu anorfodadwy, bydd y darpariaethau eraill yn dal i fod ar waith. Pe tasai darpariaeth anghyfreithlon neu anorfodadwy yn gyfreithlon neu'n orfodadwy ar ôl dileu rhan ohoni, ystyrir bod y rhan honno wedi'i dileu, a bydd gweddill y ddarpariaeth yn dal i fod ar waith.

Gwahardd Hawliau Trydydd Parti

Mae'r telerau defnyddio hyn er eich budd chi a'n budd ni, ac ni fwriedir y byddant er budd trydydd parti neu'n orfodadwy gan drydydd parti. Nid yw mynnu ein hawliau ni a'ch hawliau chi mewn perthynas â'r telerau defnyddio hyn yn amodol ar gydsyniad trydydd parti.

Y Cytundeb Cyfan

Mae'r telerau defnyddio hyn, ynghyd â'n polisi preifatrwydd, yn creu'r cytundeb cyfan rhyngoch chi a ni mewn perthynas â'ch defnydd o'n gwefan, ac maent yn disodli pob cytundeb blaenorol o ran eich defnydd o'r wefan hon.

Cyfraith ac Awdurdodaeth

Rheolir y telerau defnyddio hyn gan gyfraith Lloegr ac fe'u dadansoddir yn unol â honno, a bydd dadlau ynghylch y telerau defnyddio hyn yn destun awdurdodaeth anghyfyngol llysoedd Cymru a Lloegr.

Ein Manylion

Mae ein manylion cyswllt llawn ar gael ar ein tudalen Cysylltu â Ni.